

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Cyffordd  
Llandudno

Dyddiad yr arolygiad: 24 Medi 2024

Dyddiad cyhoeddi: 30 Rhagfyr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	9
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	17
4.	Y camau nesaf.....	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Cyffordd Llandudno ar 24 Medi 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 16 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd wyth gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol Cyffordd Llandudno yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn.

Gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Roedd systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau dynodedig i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff.
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar mewn deintyddfeydd a oedd yn gwarchod eu hurddas.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol Cyffordd Llandudno yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion.

Roedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu.

Roedd pob ardal yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn modd priodol a diogel.

Roedd aelodau'r tîm deintyddol yn wybodus iawn, yn broffesiynol ac yn dangos eu bod yn deall ble a sut i gael gfael ar gyngor ac arweiniad.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff sinc golchi dwylo ei gosod yn yr ystafell ddihalogi
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar silindrau ocsigen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.
- Ystafell ddihalogi ddynodedig.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir ym Mhractis Deintyddol Cyffordd Llandudno.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei bod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl ac i'r practis.

Gwelsom fod y tîm staff yn cydweithio'n dda iawn a'u bod yn ymrwymedig i roi gofal o safon uchel i'r cleifion.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff er mwyn iddynt gyflawni eu rolau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amrywiaeth o bolisiau ar gael yn hawdd i'r staff i'w helpu wrth eu gwaith
- Roedd y staff, gan gynnwys y staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel rhan o dîm
- Roedd ffeiliau'r staff yn cael eu cynnal yn dda
- Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant perthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).





## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan gleifion

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*“Practis rhagorol - rwyf wedi sôn amdano wrth lawer o ffrindiau sydd wedi dewis symud eu gofal deintyddol yma o ganlyniad. Rwyf bob amser yn cael digon o wybodaeth ac rwy'n gwerthfawrogi'r dewisiadau rwy'n eu cael a'r ffaith fy mod yn cael fy nhrin fel unigolyn.”*

*“Mae'r staff bob amser yn hyfryd ac yn barod i helpu. Rwy'n mynychu fel claf preifat gan fy mod wedi bod ar y rhestr aros i gael gwasanaeth deintydd y GIG ers 8 mlynedd. Mae'n ddrud iawn hyd yn oed wrth ddefnyddio'r cynllun misol, ond does dim dewis arall.”*

*“Mae'r staff yn groesawgar iawn ac yn ofalgar. Bob amser yn gwenu ac yn amlwg yn mwynhau eu gwaith. Rwyf bob amser yn teimlo fy mod yn cael digon o wybodaeth ac fy mod yn cael gofal da.”*

*“Mae'n fwy anodd cael apwyntiad â hylenydd na'r deintydd.”*

#### Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

##### Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd deunydd hybu iechyd wedi'i arddangos ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Felly, roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion a allai eu helpu i ofalu am hylendid eu ceg.

Gwelsom arwyddion 'Dim Smygu' yn y practis a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreuedd di-fwg.

Roedd rhestrau prisiau hefyd wedi'u harddangos yn glir yn y dderbynfa ac yn yr ardaloedd aros. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi rhoi cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gwelsom arwyddion clir a oedd yn nodi sut i gysylltu â'r practis y tu allan i oriau.

### **Gofal urddasol a pharchus**

Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau penodol i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd un claf wrthym:

*“Mae'r gofal yn y practis yn eithriadol o dda. Mae [deintydd] a'r tîm yn fy nhrin â chwarteisi a pharch. Rwy'n pryderu o hyd pan fyddaf yn mynd at y deintydd, yn dilyn profiad gwael pan oeddwn yn blentyn yn yr 1980au. Mae'r practis wedi gwella fy ymddiriedaeth a'm hyder dros y blynyddoedd sy'n golygu fy mod bellach yn llawer llai gofidus wrth ddefnyddio'r gwasanaeth. Rwy'n teimlo'n llawer cryfach o ganlyniad, a hoffwn ddiolch iddynt am hynny.”*

Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn teimlo bod y tîm deintyddol yn eu helpu i ddeall yr holl opsiynau a oedd ar gael iddynt o ran y driniaeth roedd angen iddynt ei chael. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym hefyd fod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall.

Gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus ac roeddent yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn barod i'w helpu. Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau.

Gwelsom fod y 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos wrth y dderbynfa a'r ardaloedd aros.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Mae gan y practis daflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol o dan y rheoliadau.

Mewn ymateb i holiadur AGIC, dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod yn cael digon o wybodaeth er mwyn deall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael. Hefyd, dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod eu hanesion meddygol yn cael eu cadarnhau cyn iddynt gael triniaeth.

Gwelsom fod hanes meddygol yn cael ei wirio a'i gofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom.

Roedd pob claf yn cytuno ei fod yn cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a bod y costau yn cael eu nodi'n glir cyn cael triniaeth.

Gwelsom fod cynlluniau ac opsiynau o ran triniaethau wedi'u cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

## Amserol

### Gofal amserol

Gwelsom fod y staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal deintyddol bob amser yn cael ei roi mewn modd amserol. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion (14/16) a gwblhaodd yr holiadur ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt, a dywedodd dau glaf ei bod yn eithaf hawdd.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion (12/16) a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys a dywedodd pedwar wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud hynny. Roedd rhif mewn argyfwng ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau ar y cleifion. Roedd y manylion cyswllt wedi'u darparu ger y brif fynedfa, ar y neges peiriant ateb, ar y wefan ac yn y daflen wybodaeth i gleifion.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion (15/16) a gwblhaodd holiadur wrthym mai Saesneg oedd eu dewis iaith, a dywedodd un claf wrthym mai Cymraeg oedd ei ddewis iaith.

Dywedwyd wrthym fod dau aelod o'r staff yn siarad Cymraeg yn y practis a gwelsom boster ger y dderbynfa a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion am y gwasanaeth hwn.

Dywedwyd wrthym hefyd, pe bai angen, y gallai'r staff ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu i'w helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Yn ogystal, mae rhai o aelodau o staff y practis yn gallu siarad Rwseg a Rwmaneg â'r cleifion hefyd.

Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth i gleifion, gan gynnwys taflen wybodaeth i gleifion a pholisi cwynion. Roedd yr holl wybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedodd y staff wrthym hefyd y gellid trefnu i ddarparu'r wybodaeth mewn fformatau gwahanol pe bai claf yn gofyn am hynny.

### **Hawliau a chydraddoldeb**

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio.

Roedd polisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion (10/16) a gwblhaodd yr holiadur wrthym fod y safle yn gwbl hygyrch a dywedodd tri chlaf wrthym fod y safle yn rhannol hygyrch. Roedd dau glaf yn ansicr ac nid atebodd un claf. Gwelsom fod mynediad da i'r adeilad. Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd gyrraedd y dderbynfa, yr ardal aros ac un ddeintyddfa ar y llawr gwaelod.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli risg

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a phobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yr adeilad, i bob golwg, mewn cyflwr da iawn y tu mewn a'r tu allan. Gwelsom fod pob ardal yn lân iawn ac yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y practis. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo bod y practis yn lân iawn.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân.

Roedd yr allanfeydd argyfwng yn weladwy ac roedd poster lechyd a Diogelwch wedi'i arddangos.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, yn ogystal ag asesiadau risg, megis tân ac iechyd a diogelwch. Roedd yr holl asesiadau risg yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cawsom sicrwydd bod y safle yn addas at y diben, a gwelsom ddigon o ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr holl risgiau, yn fewnol ac yn allanol, i'r staff, ymwelwyr a'r cleifion wedi cael eu hystyried.

Gwelsom fod cynllun parhad busnes ar waith i sicrhau parhad y gwasanaethau a ddarperir a gofal diogel i'r cleifion.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd gan y practis ardal ddynodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol. Roedd y cyfleuster yn lân ac yn drefnus. Roedd yn cynnwys cyfarpar addas ac roedd yn daclus.

Roedd y trefniadau dihalogi yn dda. Dangosodd y staff y broses ddihalogi i ni a nodwyd y canlynol gennym

- Roedd y cyfarpar a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio offer mewn cyflwr da.

- Roedd offer yn cael ei storio'n briodol ac roedd dyddiad priodol wedi'i nodi arno.
- Roedd digon o gyfarpar diogelu personol i ddiogelu'r staff rhag anaf a/neu haint.
- Roedd gwiriadau cynnal a chadw dyddiol yn cael eu cynnal a'u cofnodi.
- Roedd cynwysyddion storio'r offer yn gadarn ac yn ddiogel.

Roedd y gweithdrefnau a oedd ar waith i lanhau, sterileiddio a storio offer yn unol â'r canllawiau arferion gorau diweddaraf. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd sinc golchi dwylo benodedig yn yr ystafell ddihalogi. Dywedwyd wrthym fod y staff yn defnyddio'r sinc golchi dwylo yn y ddeintyddfa. Rydym yn argymhell y dylid gosod sinc golchi dwylo benodedig yn yr ystafell ddihalogi.

***Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau y caiff sinc golchi dwylo benodedig ei gosod yn yr ystafell ddihalogi.***

Roedd archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau gan ddefnyddio adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Roedd rhaglen cynnal a chadw ddyddiol ar waith i wirio'r cyfarpar sterileiddio. Roedd cofnodlyfr yn cael ei ddefnyddio i gofnodi gwiriadau diogelwch ar yr awtoclaf ar ddechrau a diwedd y dydd.

Roedd rhestr wirio ar gyfer glanhau ym mhob deintyddfa, a gwelsom fod y rhestrau hyn wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd trefniadau priodol ar waith i ymdrin ag anafiadau a achoswyd gan eitemau miniog. Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwneiddio Hepatitis B ar gyfer y mwyafrif o'r staff. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu diogelu rhag feirysau a gludir yn y gwaed.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd dogfennaeth contract ar waith i waredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli a'i roi yn y bagiau / cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

## **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd gweithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd (CPR). Roedd gan y practis un swyddog cymorth cyntaf wedi'i hyfforddi. Gwnaethom gynghori'r rheolwyr cofrestredig y dylid ystyried hyfforddi swyddogion cymorth cyntaf ychwanegol ar gyfer unrhyw adegau pan fyddai'r swyddog cymorth cyntaf penodedig yn absennol, boed hynny wedi'i gynllunio neu heb ei gynllunio.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Roedd system effeithiol ar waith i archwilio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan Gyngor Adfywio'r DU. Fodd bynnag, nid oedd y dyddiad y dylid rhoi'r gorau i'w ddefnyddio wedi'i nodi ar y bag hunanchwyddo â chronfa ocsigen i oedolion a phlant. Dywedwyd wrthym fod y bagiau wedi cael eu tynnu o'u deunydd pecynnu gwreiddiol yn ystod hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd (CPR) y practis. Ymdriniwyd â'r mater hwn ar unwaith yn ystod yr arolygiad a chyfeirir ato yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant priodol ar sut i ddefnyddio silindrau ocsigen fel rhan o'r hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd blynyddol. Yn ogystal â'r hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd blynyddol, gwnaethom hefyd argymhell y dylai'r staff gwblhau hyfforddiant BOC ar <sup>1</sup>silindrau ocsigen.

***Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant BOC ar silindrau ocsigen.***

Roedd polisi ar waith ar gyfer archebu, cofnodi, rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Dangosodd y staff eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai'n rhaid iddynt roi gwybod am ddigwyddiad a oedd yn ymwneud â meddyginiaeth.

**Diogelu plant ac oedolion**

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisiâu yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol, ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau gweithredu i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant ac oedolion agored i niwed.

---

<sup>1</sup> Darparwr nwyon diwydiannol, meddygol ac arbenigol yn y DU yw BOC.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon ynglŷn â gwaith yn uniongyrchol gyda'r rheolwr cofrestredig ac roeddent yn hyderus iawn y byddai'n gweithredu ynghylch unrhyw bryderon.

Gwelsom fod polisi chwythu'r chwiban ar waith yn y practis.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi a oedd yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a / neu gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cadarnhawyd gennym fod gan bob aelod perthnasol o'r staff wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### **Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol a gwelsom eu bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus iawn, yn lân ac yn daclus.

Roedd yr holl gyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. Roedd trefniadau ar waith i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel ac roedd archwiliadau sicrhau ansawdd rheolaidd yn cael eu cwblhau o ddelweddau pelydr-X. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf.

## **Effeithiol**

### **Gofal effeithiol**

Roedd trefniadau boddhaol ar waith ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben ac mewn polisiau a gweithdrefnau.

### **Cofnodion cleifion**

Edrychwyd ar sampl o gofnodion deg claf. Ar y cyfan, gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion clinigol da yn cael eu cynnal, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion.

Roedd pob cofnod a welsom wedi'i deilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros yr apwyntiad. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da.



# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan staff

Rhoddodd y staff a ymatebodd i holiadur AGIC sylwadau cadarnhaol ar y cyfan. Roedd pob aelod o'r staff a ymatebodd ond un o'r farn bod y cyfleusterau a'r safle yn addas ar gyfer eu gwaith. Cadarnhaodd pob aelod o'r staff fod digon o staff a oedd wedi cael hyfforddiant addas yn y practis a chadarnhaodd y mwyafrif o'r staff hefyd eu bod wedi cael arfarniad blynyddol.

Roedd y staff yn teimlo bod gofal cleifion ymhlith prif flaenoriaethau'r practis, ac roedd pob un ohonynt yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn eu darparu. Roedd pob un a ymatebodd yn cytuno y byddent yn fodlon i ffrind neu berthynas gael safon y gofal a ddarparwyd yn y practis hwn.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

*“Rwy'n teimlo bod [enw aelod o staff], [enw aelod o staff] a [enw aelod o staff] yn deg iawn ac yn ddeallgar. Does dim problemau wedi codi yn ystod fy nghyfnod yn gweithio yma.”*

*“Yn fy marn i, mae'r practis hwn yn darparu gofal a thriniaethau o ansawdd da iawn ac mae pob aelod o'r staff yn meddu ar y sgiliau priodol ac wedi cael hyfforddiant priodol.”*

*“Lle hollol hyfryd i weithio ynddo. Rheolwyr teg a deallgar. Tîm gwych.”*

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ar waith.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei fod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol â rheolwr y practis a / neu'r ddau reolwr cofrestredig a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Roedd y staff yn glir iawn ac yn wybodus ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roeddent yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion, wedi'u cefnogi gan amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau. Roedd yr holl bolisiau a gweithdrefnau

yn cynnwys dyddiad cyhoeddi a/neu adolygu, gan sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod arferion yn gyfredol.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth drwy gyfarfodydd tîm ar gyfer y practis cyfan. Roedd amrywiaeth o bynciau perthnasol yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd hyn ac roedd cofnodion yn cael eu cadw.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith i bob un ohonynt. Roedd gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol hefyd.

## **Y Gweithlu**

### **Gweithlu medrus a galluog**

Roedd gan bob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis gontract cyflogaeth ac roedd rhaglen sefydlu ar waith, a oedd yn cynnwys hyfforddiant ac yn ymdrin â pholisiau a gweithdrefnau perthnasol. Gwelsom hefyd fod arfarniadau staff wedi cael eu cynnal.

Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i gadarnhau eu bod yn parhau i fod yn addas i gyflawni eu rolau. Roedd tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw ar ffeil fel sy'n ofynnol. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Cadarnhaodd y rheolwyr cofrestredig eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u rhwymedigaethau fel y'u nodwyd yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

## **Diwylliant**

### **Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu**

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith. Roedd hon ar gael i bob claf yn yr ardal aros. Roedd manylion hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac yn y datganiad o ddiben.

Gwnaethom drafod y dull ar gyfer cael adborth gan gleifion, sef cynnig ffurflenni adborth iddynt ar ddiwedd eu triniaeth. Gall y cleifion hefyd roi adborth drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Hefyd, mae blwch sylwadau ar gael ger desg y dderbynfa. Roedd poster 'dywedo chi, gwnaethom ni' yn yr ardal aros i ddangos bod camau gweithredu yn cael eu cymryd o ganlyniad i adborth.

## **Dysgu, gwella ac ymchwil**

### **Gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd yn amlwg iawn bod y staff yn y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Rhoddwyd enghreifftiau i ni o archwiliadau amrywiol a oedd yn cael eu cynnal fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau o gofnodion cleifion, archwiliadau pelydr-X, atal a rheoli heintiau a dihalogi (cydymffurfiaeth â chanllawiau WHTM 01-05), rhagnodi gwrthfotigau, presgripsiynau a rhoi'r gorau i smygu.

Dywedwyd wrthym nad oedd y practis wedi defnyddio unrhyw adnoddau hyfforddiant ar gyfer gwella ansawdd fel Denplan Excel neu Gynllun Arferion Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain (BDA), ac rydym yn argymhell y dylai'r practis wneud hynny.

***Dylai'r rheolwyr cofrestredig ystyried cwblhau'r adnoddau hyfforddiant ar gyfer gwella ansawdd fel Denplan Excel neu Gynllun Arferion da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain (BDA).***

Dywedodd y rheolwyr cofrestredig wrthym hefyd nad oeddent wedi asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn ffurfiol fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

***Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig drefnu i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a rhoi copi o'r adroddiad dilynol i AGIC.***

Roedd aelodau'r tîm deintyddol yn rhagweithiol, yn wybodus, yn broffesiynol ac yn dangos eu bod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nodwyd gennym nad oedd y dyddiad y dylid rhoi'r gorau i'w ddefnyddio wedi'i nodi ar y bag hunanchwyddo â chronfa ocsigen i oedolion a phlant.	Gallai hyn gynyddu'r risg i ddiogelwch cleifion pe bai argyfwng meddygol.	Gwnaethom uwchgyfeirio'r pryder at y rheolwyr cofrestredig yn ystod ein hymweliad.	Gwnaeth y rheolwyr cofrestredig drefnu ar unwaith i archebu bagiau hunanchwyddo newydd i gyrraedd drannoeth.

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Cyffordd Llandudno

Dyddiad yr arolygiad: 24 Medi 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith ar gyfer yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Cyffordd Llandudno

Dyddiad yr arolygiad: 24 Medi 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
1.	Nid oedd sinc golchi dwylo yn yr ystafell ddihalogi.	Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau y caiff sinc golchi dwylo benodedig ei gosod yn yr ystafell ddihalogi.	WHTM 01-05	Prynwyd sinc fach a threfnwyd i blymwr ddod i'w gosod ar 31 Hydref	Paul Jenkins	Wedi'i gwblhau
2.	Nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant BOC ar silindrau ocsigen.	Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant BOC ar silindrau ocsigen.	Canllawiau BOC	Dilynwyd y ddolen a ddarparwyd ac mae'r staff bellach wedi cwblhau'r cwrs eDdysgu ar-lein	Kirsty Hughes	Wedi'i gwblhau
3.	Nid oedd y practis yn defnyddio unrhyw adnoddau gwella ansawdd.	Dylai'r rheolwyr cofrestredig ystyried cwblhau'r adnoddau hyfforddiant ar gyfer gwella ansawdd fel Denplan Excel neu Gynllun Arferion	Rheoliad Deintyddiaeth Breifat 13	Rydym yn ystyried defnyddio adnodd gwella ansawdd yn y dyfodol	Paul Jenkins a Jeremy Williams	Parhaus

		da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain (BDA.				
4.	Nid oedd y rheolwyr cofrestredig wedi asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth.	Rhaid i'r rheolwyr cofrestredig drefnu i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a rhoi copi o'r adroddiad dilynol i AGIC.	Rheoliad Deintyddiaeth Breifat 16	Mae adroddiad bellach wedi'i ysgrifennu ar ansawdd y gwasanaeth ac wedi'i gyflwyno i AGIC	Paul Jenkins	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau):** Kirsty Hughes

**Swydd:** Rheolwr y Practis

**Dyddiad:** 18.11.2024